**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 3 Ebrill. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela (Diwygio) 2023 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yn Senedd Cymru.

Gwnaed yr OS uchod gan yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth arfer y pwerau cydredol plws a roddwyd gan Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) 2160/2003, ar gyfer rheoli salmonela a chyfryngau milheintiol eraill a nodwyd a gludir mewn bwyd. Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf ac maent yn dod i rym ar 4 Awst 2023. Bydd Aelodau am nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfreithiau sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio gan weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, oherwydd natur y diwygiadau, ystyrir ei bod yn briodol i OS ar gyfer y DU gyfan (wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU) fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y Rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Yn ogystal, mae natur y newidiadau y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn fach ac yn dechnegol. O ganlyniad, rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**